



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL
CYMRU
(CYFANSODDIAD PANELI) 2017**

EBRILL 2017

Mae tri math o ddogfen gyfreithiol yn ymdrin â gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol a rheoleiddio'u haddasrwydd i ymarfer, sydd **oll** yn gymwys i gofrestriad y person cofrestredig a'i addasrwydd i ymarfer:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol;**
- **Cyfes Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'u cynnwys yn y Rheolau hyn. Felly, dylech ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i roi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

Y Rheoliadau yw:

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

Y Rheoliadau yw:

SL(5)035 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16524>

SL(5)032 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16521>

SL(5)034 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16523>

SL(5)033 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Personau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16522>

SL(5)064 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=17273>

SL(5)036 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=16525>

Y mae Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC"), wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), a 174(1),(6),(7),(8) a (9) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi GCC i'r perwyl hwnnw, ac yn sgil ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau a ganlyn:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

RHAGARWEINIAD

- | | | |
|----|------------------------|---|
| 1. | Enwi, cychwyn a dirymu | 4 |
| 2. | Dehongliad | 4 |

RHAN II

SEFYDLU A CHYFANSODDIAD PANELI

- | | | |
|-----|-------------------------------|---|
| 3. | Sefydlu paneli | 7 |
| 4. | Aelodaeth paneli | 7 |
| 5. | Buddiannau preifat aelodau | 7 |
| 6. | Dileu aelodau o'r garfan | 7 |
| 7. | Cyfansoddiad a chworwm paneli | 7 |
| 8. | Cynghorydd cyfreithiol | 8 |
| 9. | Cynghorydd meddygol | 9 |
| 10. | Clerc | 9 |

RHAN I

RHAGARWEINIAD

Enwi, cychwyn a dirymu

1. (1) Enwir y Rheolau hyn yn Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2017, a byddant yn dod i rym ar 3 Ebrill 2017.
- (2) Caiff Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Cofrestru) 2015(b) ("Rheolau 2015(b)") a Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014 ("Rheolau 2014") eu dirymu trwy hyn, ac eithrio:
 - (a) y bydd Rheolau 2015(b) yn parhau yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gais i gofrestru, adnewyddu neu ddychwelyd i'r Gofrestr y dechreuodd gwrandawriad yn ei gylch cyn 3 Ebrill 2017, ond nas cwblhawyd erbyn y dyddiad hwnnw;
 - (b) y bydd Rheolau 2014 yn parhau yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw wrandawriad a ddechreuodd cyn 3 Ebrill 2017, ond nas cwblhawyd erbyn y dyddiad hwnnw.

Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni fynna'r cyd-destun fel arall:

ystyr "**Deddf**" yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "**Cyngor Gofal**" yw'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;

ystyr "**panel rheoli achos**" yw panel o un neu dri aelod panel, sy'n cael eu cynghori gan gynghorydd cyfreithiol, a sefydlwyd i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan Ran II y Rheolau hyn;

ystyr "**clerc**" yw'r sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyfarfod, fel y'i diffinnir yn y rheolau hyn;

ystyr "**gwrandawriad addasrwydd i ymarfer**" yw gwrandawriad gerbron panel addasrwydd i ymarfer mewn achos addasrwydd i ymarfer;

ystyr "**panel addasrwydd i ymarfer**" yw panel a sefydlir yn unol â rheol 3(1)(c) i:

- (a) wneud dyfarniadau mewn perthynas ag addasrwydd unigolion sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;
- (b) atal dros dro, neu ychwanegu amodau at, gofrestrriad unigolyn ar y gofrestr wrth aros am ddyfarniad gan banel apelau cofrestru neu banel addasrwydd i ymarfer;

ystyr “**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2017;

ystyr “**in camera**” yw yn absenoldeb y partïon a’u cynrychiolwyr, a’r cyhoedd;

ystyr “**panel gorchmynion interim**” yw panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1)(b) i atal dros dro, neu ychwanegu amodau at, gofrestrriad unigolyn ar y gofrestr wrth aros am ddyfarniad gan banel apelau cofrestru neu banel addasrwydd i ymarfer;

ystyr “**Rheolau Gorchmynion Interim**” yw Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2017;

ystyr “**person lleyg**” yw person nad yw ac na fu, o fewn pum mlynedd i’w benodi i banel:

- (a) yn weithiwr cymdeithasol;
- (b) yn ymgymryd ag unrhyw un o’r disgrifiadau o weithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi’u cynnwys yn adrannau 79(1)(b) – (d) a 79(3)(a) i (l) y Ddeddf (fel y mae rheoliad 3 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu ystyr ‘Gweithiwr Gofal Cymdeithasol) 2016 yn eu hehangu;
- (c) yn ymwneud â hyfforddi, addysg, penodi, cyflogi, cyflenwi, goruchwyllo, monitro neu gynrychioli gweithwyr gofal cymdeithasol; nac
- (d) yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;

ystyr “**cynghorydd cyfreithiol**” yw unigolyn â chymhwyster cyffredinol deng mlynedd yn unol ag ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 sy’n gymwys i ymarfer y gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a benodwyd gan GCC yn unol â rheol 8;

ystyr “**cynghorydd meddygol**” yw ymarferydd meddygol, wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Meddygaeth 1983, a benodwyd gan GCC yn unol â rheol 10;

ystyr “**panel**” yw panel apelau cofrestru, panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer GCC a gyfansoddwyd yn unol ag adran 174 y Ddeddf, y dygir yr achosion ger eu bron;

ystyr “**cofrestr**” yw’r gofrestr a gedwir gan GCC o dan adran 80 y Ddeddf;

ystyr “**person cofrestredig**” yw’r person cofrestredig y gwnaed yr atgyfeiriad mewn perthynas ag ef;

ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod ar y gofrestr sy’n ymwneud â pherson cofrestredig penodol;

ystyr “**panel apelau cofrestru**” yw panel a sefydlwyd yn unol â rheol 3(1)(a) i wneud dyfarniadau o dan Ran 4 y Ddeddf mewn perthynas â chofrestriad cychwynnol ar y Gofrestr, parhau ar y Gofrestr neu adfer iddi;

ystyr “**GCC**” yw’r corff corfforaethol o’r enw Gofal Cymdeithasol Cymru, sef Cyngor Gofal Cymru yn flaenorol;

ystyr “**gweithiwr gofal cymdeithasol**” yw, at ddibenion y Rheolau hyn, unrhyw berson y mae’r disgrifiadau canlynol o weithiwr gofal cymdeithasol yn berthnasol iddo:

- (a) person sy’n rheoli man gwaith y darperir gwasanaethau rheoledig ynddo neu ohono; neu
- (b) berson sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad â -
 - (i) gwasanaeth cartref gofal yn ystyr Rhan 1 y Ddeddf, sy’n cael ei ddarparu’n gyfan gwbl neu’n bennaf i blant, neu
 - (ii) wasanaeth llety diogel yn ystyr paragraff 2 i Atodlen 1 y Ddeddf a ddarperir gan y darparwr hwnnw;

ystyr “**gweithiwr cymdeithasol**” yw’r ystyr a roddir gan adran 79(1)(a) y Ddeddf, sef person sy’n ymgymryd â gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru;

ystyr “**myfyriwr gwaith cymdeithasol**” yw person sy’n cymryd rhan mewn cwrs yng Nghymru a gymeradwywyd gan GCC o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf ar gyfer personau sy’n dymuno dod yn weithiwr gofal cymdeithasol neu berson sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysu mewn gwaith cymdeithasol rywle arall yn y Deyrnas Unedig, y mae Cyngor Gofal wedi’i chymeradwyo, sydd wedi neu sy’n dymuno cael ei gofrestru yn rhan gweithwyr cymdeithasol y gofrestr.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni fynna’r cyd-destun fel arall:

- (a) bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
- (b) bydd unrhyw gyfeiriad at reol neu ran â rhif iddi yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
- (c) bydd unrhyw gyfeiriad mewn rheol neu ran at baragraff â rhif iddo, yn gyfeiriad at y paragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
- (d) bydd unrhyw gyfeiriad mewn paragraff mewn rheol neu ran at is-baragraff â rhif iddo yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

RHAN II

SEFYDLU PANELI A'U CYFANSODDIAD

Sefydlu paneli

3. (1) Sefydli'r y paneli a ganlyn:
 - (a) paneli apelau cofrestru;
 - (b) paneli gorchmynion interim;
 - (c) paneli addaswydd i ymarfer:

Aelodaeth paneli

4. (1) Bydd GCC yn cynnal cronfa o aelodau y penodir aelodau'r panel apelau cofrestru, y panel gorchmynion interim, y panel addaswydd i ymarfer a phanel rheoli achos ohoni ar gyfer achos penodol.
- (2) Bydd aelodau a chadeiryddion paneli'n cael eu penodi am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd a byddant yn gymwys i'w hailbenodi am gyfnod pellach nad yw'n hwy na phedair blynedd.

Buddiannau preifat aelodau

5. (1) Bydd GCC yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau preifat aelodau'r panel.

Dileu aelodau o'r gronfa

6. (1) Bydd GCC yn dileu aelod panel o'r gronfa aelodau:
 - (a) y mae ei dymor yn ei swydd wedi dod i ben ac ni chaiff ei ailbenodi am gyfnod pellach;
 - (b) sy'n ymddiswyddo'n ysgrifenedig i GCC.
- (2) Gall GCC atal aelod panel dros dro a/neu ddileu aelod panel o'r gronfa aelodau oherwydd camymddwyn difrifol.

Cyfansoddiad a chworwm paneli

7. (1) Gall panel rheoli achos sy'n cael ei gynnull i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan reol 5(1) y Rheolau Gorchmynion Interim a phanel rheoli achos sy'n cael ei gynnull i gynnal cyfarfod rheoli achos o dan reol 5(1) y Rheolau Addaswydd i Ymarfer gynnwys un neu dri aelod.
- (2) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (1), bydd panel yn eistedd gyda phump neu dri aelod, gan gynnwys aelod a benodir i gadeirio'r panel a bydd darpariaethau paragraffau (3) i (6) yn gymwys.

- (3) Tri fydd cworwm bob panel.
- (4) Bydd pob panel yn cynnwys o leiaf un person lleyg yn aelod.
- (5) Bydd y Cadeirydd yn berson lleyg.
- (6) Bydd GCC yn sicrhau bod panel yn cynnwys aelod sydd â phrofiad neu ddealltwriaeth o waith cymdeithasol neu'r maes gwaith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd, apelydd neu'r person cofrestredig yr ystyrir ei achos yn ymgymryd ag ef, oni bai bod yr ymgeisydd, yr apelydd neu'r person cofrestredig wedi'i gofrestru ar y sail yn unig ei fod yn dilyn cwrs mewn gwaith cymdeithasol perthnasol a gymeradwywyd gan GCC o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf.
- (7) Ni fydd aelod o banel apelau cofrestru yn eistedd fel aelod i ystyried achos ymgeisydd, apelydd neu berson cofrestredig, os bydd yr aelod hwnnw:
 - (a) yn meddu ar wybodaeth am ffeithiau'r achos, cyn i'r mater gael ei ystyried gan y panel; neu
 - (b) os bu'n aelod o banel a benderfynodd yn flaenorol ar achos yn ymwneud â'r ymgeisydd, apelydd neu'r person cofrestredig.
- (8) Ni fydd aelod o banel gorchmynion interim yn eistedd fel aelod i ystyried achos person cofrestredig, os bu'r aelod hwnnw yn aelod yn flaenorol o banel apelau cofrestru neu banel addaswydd i ymarfer a fu'n ystyried achos yn ymwneud â'r person cofrestredig.
- (9) Ni fydd aelod o banel addaswydd i ymarfer yn eistedd fel aelod i ystyried achos person cofrestredig, os bu'r aelod hwnnw yn flaenorol yn aelod o banel gorchmynion interim neu banel apelau cofrestru a fu'n ystyried achos yn ymwneud â'r person cofrestredig.
- (10) Cyn ystyried achos, bydd aelodau'r panel yn datgan unrhyw fuddiannau preifat y gallai eraill ystyried yn rhesymol bod ganddynt ddylanwad ar arfer swyddogaethau'r panel.

Cynghorydd cyfreithiol

8. (1) Bydd GCC yn penodi cynghorydd cyfreithiol a fydd yn bresennol bob tro y bydd panel yn eistedd.
- (2) Bydd y cynghorydd cyfreithiol yn bresennol yn ystod trafodaethau pob panel yn ogystal.
- (3) Rôl y cynghorydd cyfreithiol fydd cynghori pob panel ar y gyfraith a sicrhau bod achosion gerbron pob panel yn cael eu cynnal yn deg. I'r perwyl hwn, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn hysbysu panel ar unwaith pan fydd afreoleidd-dra yn y dull o gynnal yr achos sydd gerbron y panel hwnnw, yn ei farn ef.
- (4) Bydd unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol *in camera* yn cael ei ailadrodd ar ôl hynny gerbron y partïon.

- (5) Pan gynhelir achos gerbron panel yn breifat, rhaid i'r panel hwnnw gynnal cofnod o unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol.
- (6) Ac eithrio pan fydd panel yn dyfarnu ar achos heb dystiolaeth neu gyflwyniadau llafar, rhoddir cyngor y cynghorydd cyfreithiol ym mhresenoldeb y partïon.
- (7) Caiff y partïon gyfle i gyflwyno sylwadau ar gynnwys y cyngor a roddir gan y cynghorydd cyfreithiol. Yna, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn asesu a oes angen addasu'r cyngor a roddwyd yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd gan y partïon a bydd yn cynghori'r panel yn unol â hynny, ym mhresenoldeb y partïon.
- (8) Ni fydd y cynghorydd cyfreithiol yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel sy'n ystyried achos ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.
- (9) Os caiff ei awdurdodi gan GCC, bydd y cynghorydd cyfreithiol yn cynnal adolygiad cyn gwrandawriad yn unol â rheol 3 y Rheolau Addaswydd i Ymarfer.

Cynghorydd meddygol

9. (1) Gall GCC benodi cynghorydd meddygol i gynghori panel pan ymddengys i GCC y gallai addaswydd ymgeisydd, apelydd neu berson cofrestredig i ymarfer fod wedi'i amharu oherwydd iechyd meddwl neu iechyd corfforol y person hwnnw.
- (2) Gall y cynghorydd meddygol fod yn bresennol yn ystod trafodaethau pob panel.
- (3) Rôl y cynghorydd meddygol fydd cynghori'r panel ynghylch unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas ag addaswydd corfforol a meddyliol ymgeisydd, apelydd neu berson cofrestredig i gyflawni holl waith neu ran o waith gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol neu fyfyrwr gwaith cymdeithasol (yn ôl y digwydd).
- (4) Bydd unrhyw gyngor a roddir gan y cynghorydd meddygol *in camera* yn cael ei ailadrodd ar ôl hynny gerbron y partïon.
- (5) Ac eithrio pan fydd panel yn dyfarnu ar achos heb dystiolaeth neu gyflwyniadau llafar, rhoddir cyngor y cynghorydd meddygol ym mhresenoldeb y partïon.
- (6) Caiff y partïon gyfle i gyflwyno sylwadau ar y cyngor a roddir gan y cynghorydd meddygol. Lle y gwnaed sylwadau ynghylch cynnwys y cyngor a roddwyd gan y cynghorydd meddygol, bydd y cynghorydd meddygol yn ystyried a ddylid diwygio'r cyngor a bydd yn cynghori'r panel yn unol â hynny, ym mhresenoldeb y partïon.
- (7) Ni fydd y cynghorydd meddygol yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

Clerc

10. (1) Bydd clercc yn cynorthwyo pob panel.

- (2) Y clerf fydd yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol y gwrandawriad a bydd yn cadw cofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan y panel, a'r rhesymau drostynt.
- (3) Ni fydd y clerf yn cymryd rhan ym mhroses benderfynu panel ac ni fydd ganddo hawl i bleidleisio.

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru

.....

**Arwel Ellis Owen
Cadeirydd Cyngor Gofal Cymru**

.....

Dyddiad